OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2136

# Gorchymyn Rheilffordd Llangollen a Chorwen 2010

## RHAN 3

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

**Trosglwyddo'r rheilffyrdd gan yr ymgymerwr**

**17.**—(1) Yn yr erthygl hon—

mae "prydles" ("*lease*") yn cynnwys is-brydles a phan ddefnyddir "prydlesu" fel berf rhaid ei dehongli yn unol â hynny;

ystyr "y trosglwyddai" ("*the transferee*") yw unrhyw berson y prydlesir neu y gwerthir y rheilffyrdd, neu unrhyw ran ohonynt yn unol â'r erthygl hon; ac

ystyr "yr ymgymeraeth a drosglwyddir" ("*the transferred undertaking*") yw pa faint bynnag o'r rheilffyrdd a brydlesir neu a werthir yn unol â'r erthygl hon.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) caiff yr ymgymerwr—

(a) brydlesu'r rheilffyrdd, neu unrhyw ran ohonynt, i unrhyw berson; neu

(b) gwerthu'r rheilffyrdd, neu unrhyw ran ohonynt, i unrhyw berson;

ar y fath delerau ac amodau ag y cytuna'r ymgymerwr a'r trosglwyddai arnynt.

(3) Rhaid i'r ymgymerwr beidio â phrydlesu na gwerthu'r rheilffyrdd, nac unrhyw ran ohonynt, o dan yr erthygl hon i unrhyw berson ac eithrio gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

(4) Oni bai bod y Gorchymyn hwn yn darparu'n wahanol,

(a) bydd yr ymgymeraeth a drosglwyddir yn parhau i fod yn ddarostyngedig i bob darpariaeth statudol a darpariaeth arall sy'n gymwys i'r ymgymeraeth a drosglwyddir ar ddyddiad y brydles neu'r gwerthiant (i'r graddau y maent yn parhau mewn bodolaeth ac yn gallu cael effaith); a

(b) bydd y trosglwyddai, gan gau allan yr ymgymerwr, (i) yn cael yr hawl i'r buddiant o'r holl hawliau, y pwerau a'r breintiau sy'n ymwneud â'r ymgymeraeth a drosglwyddir, a'r hawl i'w harfer, a (ii) yn ddarostyngedig i'r holl rwymedigaethau, statudol neu eraill, sy'n ymwneud â'r ymgymeraeth a drosglwyddir (i'r graddau y maent yn parhau mewn bodolaeth ac yn gallu cael effaith) gyda'r bwriad y bydd yr ymgymerwr yn cael ei ryddhau o bob cyfryw rwymedigaeth.

(5) Bydd paragraff (4) yn cael effaith yn ystod cyfnod unrhyw brydles a roddir o dan is-baragraff (2)(a) ac o ddyddiad gweithredol unrhyw werthiant o dan is-baragraff (2)(b).